

# Cyngor Sir Ddinbych

## Gwasanaethau Addysg a Phlant

### Polisi Cludiant i Ddysgwyr

#### Rheolaeth Dogfennau

#### *Cofnod Diwygio Dogfen*

Medi 2014	Fersiwn 1
Medi 2018	Fersiwn 2



## 1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1** Mae gan Gyngor Sir Ddinbych ddyletswydd i ddarparu cludiant i'r ysgol yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014. Mae'r Polisi Cludiant i Ddysgwyr hwn yn amlinellu sut mae'r Awdurdod yn darparu cludiant i ddisgyblion ysgol a choleg Sir Ddinbych, a'r meini prawf cymhwyster.
- 1.2** Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried y canlynol wrth wneud trefniadau i ddysgwyr sy'n preswyllo yn Sir Ddinbych fel arfer:
- Oedran y dysgwr
  - Y pellter o'r cartref i'r ysgol
  - Natur y llwybr o'r cartref i'r ysgol
  - Ceisiadau am addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg
  - Ceisiadau am addysg ffydd
  - Anghenion dysgwyr gydag anabledau neu anghenion dysgu ychwanegol
  - Anghenion dysgwyr sy'n 'derbyn gofal' gan yr Awdurdod Lleol
  - Anghenion dysgwyr gyda phreswyliaid deuol
- 1.3** Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a rhaid i'r Awdurdod ystyried amgylchiadau unigol pob dysgwr, gan ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan rieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Mae'r Mesur yn caniatáu'r Awdurdod Lleol i ddefnyddio disgrisiwn mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir dan rai amgylchiadau. Amlinellir yr elfennau dewisol hyn yn rhan 3 y polisi hwn.
- 1.4** Darperir cludiant i fyfyrwyr ôl-16 i Golegau Addysg Bellach dan y polisi fel trefniant dewisol. Gweler rhan 3.5.
- 1.5** Rhaid i'r Awdurdod ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol dan rai amgylchiadau. Amlinellir y rhain yn rhan 2. Mae'r ddyletswydd i ddarparu'r cludiant hwnnw ond yn berthnasol os ydy plentyn yn preswyllo yn ardal yr Awdurdod fel arfer.
- 1.6** Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i ddarparu cludiant diogel, effeithlon a chost effeithiol i'r dysgwyr hynny sy'n cymhwyso dan y polisi hwn bob amser.
- 1.7** Hwyrach y bydd amgylchiadau lle byddai trefniadau cludiant ychwanegol neu amgen yn fwy cost effeithiol na'r ddarpariaeth a ddatganwyd yn y polisi. Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i ddefnyddio disgrisiwn lle bo'n briodol, os gellir dangos bod y dewis arall yn fwy cost effeithiol ac effeithlon.
- 1.8** Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys rhwng eu cyfeiriadau cartref neu fan casglu dynodedig, a'r ysgol gymhwyso lle maen nhw wedi cofrestru ynddi. Ni ddarperir cludiant am ddim i gyfeiriadau neu o gyfeiriadau aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, cyfeiriadau gwaith y rhieni neu gyfleusterau gofal plant o unrhyw fath.
- 1.9** Daw'r Polisi i rym o 1 Medi 2018 ymlaen. Bydd trefniadau cludiant a aseswyd ac a ddarparwyd dan bolisi blaenorol Sir Ddinbych yn parhau oni fod newid materol mewn amgylchiadau a fyddai'n gofyn am wneud cais newydd, e.e. symud cartref neu ysgol / coleg AB. Amlinellir y manylion ar sut i wneud cais yn rhan 4.

## 2. CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

### 2.1 Ysgolion sy'n Cymhwyso

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n diwallu'r meini prawf hawliau a osodir yn y polisi hwn. Cyfeiria'r polisi at gludiant i ysgolion sy'n cymhwyso ac oddi wrthynt yn y categorïau canlynol:

- ysgol gymunedol, a reolir, sylfaen neu wirfoddol a gynorthwyr
- ysgol arbennig nas cynhelir
- uned cyfeirio i ddisgyblion
- ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig
- ysgol ymddiriedol wirfoddol a gynorthwyr

### 2.2 Meini Prawf Pellter

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn amodi y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr oed ysgol gorfodol yn unig, os ydy'r pellter o'r cartref i'w hysgol addas agosaf o leiaf:

- (a) 2 filltir i ddisgyblion Ysgolion Cynradd
- (b) 3 milltir i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd

### 2.3 Yr Ysgol Addas Agosaf

Yr ysgol addas agosaf yw ysgol sy'n darparu addysg sy'n briodol i oedran, gallu, cymhwyster y dysgwr, ac unrhyw anghenion dysgu allai fod ganddynt. Fel rheol, bydd yn ysgol yn yr ardal y mae'r dysgwr yn preswyllo ynddi, neu'n ysgol arall (e.e. y tu allan i'r sir) os ydy hon yn agosach i adref.

Gall trigolion Sir Ddinbych ddod o hyd i'w hysgol leol agosaf trwy ymweld â dolen '[Fy Eiddo](#)' ar hafan gwefan Sir Ddinbych, neu trwy ymweld â: [llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw](http://llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw)

### 2.4 Ysgolion Bwydo

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhai Ysgolion Cynradd yn ysgolion bwydo naturiol i rai Ysgolion Uwchradd. Dengys y berthynas rhwng yr ysgolion hyn yn Atodiad 1. Dan drefniadau dewisol, gallai'r Awdurdod hefyd ddarparu cludiant ysgol am ddim i'r ysgol uwchradd ddynodedig, hyd yn oed os nad dyma'r ysgol uwchradd addas agosaf. Dengys rhagor o wybodaeth yn rhan 3.4 dan Cludiant Ysgol Dewisol.

### 2.5 Mesur Pellter

Ar gyfer asesiadau dan y meini prawf pellter yn rhan 2.2, bydd y gwaith cyfrifo o'r cartref i'r ysgol yn glynu wrth yr arweiniad a ddarparwyd yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014. Bydd y llwybr i'r ysgol yn cael ei fesur o ffin y cartref i'r gât ysgol agosaf, a gallai gynnwys llwybrau troed cyhoeddus, llwybrau ceffylau a llwybrau eraill, yn ogystal â ffyrdd wedi'u mabwysiadu. Nid oes rhaid iddo gynrychioli'r pellter byrraf ar y ffordd.

Lle disgwylir yn rhesymol i ddysgwyr gerdded i'r ysgol, mesurir y pellter yn ôl y llwybr byrraf sydd ar gael y gallai plentyn, yng nghwmni oedolyn cyfrifol, gerdded yn rhesymol o ddiogel arno; o ystyried oedran ac anghenion y plentyn. Os bydd yr eiddo ar ffordd heb ei mabwysiadu, bydd yn cael ei fesur o'r lle y mae'r eiddo'n cwrdd â'r briffordd wedi'i mabwysiadu neu'r llwybr wedi'i fabwysiadu. Bydd pob cyfrifiad pellter yn cael ei wneud gan ddefnyddio pecyn meddalwedd dethol yr Awdurdod.

Ar gyfer asesiadau dros y meini prawf pellter a grybwyllwyd yn rhan 2.2, bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol addas agosaf yn cael ei fesur ar hyd y llwybr ffordd fyrraf sydd ar gael, h.y. o ffin y cartref i'r gât ysgol agosaf gan ddefnyddio pecyn meddalwedd dethol yr Awdurdod. Fodd bynnag, os bydd yr eiddo ar ffordd heb ei mabwysiadu, bydd yn cael ei fesur o'r fan y mae'r ffordd heb ei mabwysiadu'n cwrdd â'r briffordd wedi'i mabwysiadu.

Ar gyfer pob cyfrifiad, bydd y mesuriad pellter i'r 0.1 milltir agosaf, fel a fesurwyd gan becyn meddalwedd dethol yr Awdurdod.

**Sylwch:** Dylai Rhieni / Gofalwyr gyfeirio hefyd at ran 5.5 am wybodaeth am ddulliau cludiant cynaliadwy i'r ysgol.

## **2.6 Cludiant Ysgolion Cynradd ac Uwchradd**

Bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol addas agosaf yn unol â meini prawf y polisi hwn ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Gallai darpariaeth ddewisol fod yn berthnasol hefyd, yn rhinwedd y meini prawf a ddengys yn rhan 3.

## **2.7 Dewis Ysgol y Rhieni / Gofalwyr**

Mae gan rieni / gofalwyr yr hawl i fynegi ffafriaeth i dderbyn eu plentyn i unrhyw ysgol, yn amodol ar argaeledd lleoedd. Os derbynir y cais, mae'r rhiant / gofalwr yn colli eu hawl i gludiant am ddim os nad dyma yw eu hysgol addas agosaf neu'r ysgol uwchradd ddynodedig ar gyfer yr ysgol fwydo gynradd a fynychwyd ganddynt.

Mae hyn yn gyson â bodloni'r gofynion fel yr amlinellwyd yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014.

**PWYSIG - Cynghorir Rhieni / Gofalwyr i ystyried goblygiadau cludiant ysgol cyn mynegi ffafriaeth am le mewn ysgol. Gweler rhan 2.3 ar yr ysgol addas agosaf a rhan 5.4 ar effaith cludiant.**

## **2.8 Derbyniadau Ysgol**

Os oedd rhieni / gofalwyr yn methu sicrhau lle i'w plentyn yn eu hysgol addas agosaf, neu os ydy eu hysgol uwchradd ddynodedig (o'r ysgol gynradd fwydo briodol) yn llawn, yna bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i'w hysgol addas agosaf nesaf, ar yr amod y bodlonir y meini prawf pellter yn rhan 2.2.

## 2.9 **Mannau Casglu**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried, at ei gilydd, y gall darparu manau casglu ar y cyd fod yn rhan o drefniant cludiant addas o fewn ystyr rhan 3 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

I ddysgwyr sy'n cymhwyso am gludiant, bydd disgwyl y byddant yn gadael o fan casglu wedi'i benderfynu ymlaen llaw, oni nodir fel arall pan brosesir y cais. Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ddod o hyd i fannau casglu'n weddol agos at gartrefi'r dysgwyr, a dim mwy na'r pellteroedd statudol a ddengys yn rhan 2.2. Mae hyn yn disgwyl y bydd rhieni/gofalwyr yn gallu defnyddio'u man casglu dynodedig er mwyn sicrhau taith ddiogel ac amserol i'w plentyn fynd i'r ysgol a dod oddi yno. Bydd unrhyw bellter a fesurir yn dilyn yr egwyddorion a amlinellwyd yn rhan 2.5. Bydd yr asesiad hefyd yn ystyried llwybrau peryglus, gan ddilyn yr egwyddorion a osodwyd yn rhan 2.10.

Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd y man casglu mewn modd amserol a'i fod yn mynd ar y cerbyd yn ddiogel. Rhaid iddynt sicrhau hefyd bod yno oedolyn cyfrifol i gwrdd â'u plentyn ar y daith ddychwelyd, os ydy oedran neu anghenion y plentyn yn gofyn am ddarparu hebryngwr.

Os nad oes oedolyn cyfrifol yno i gwrdd â phlentyn sydd o oedran neu sydd ag anghenion sy'n gofyn am ddarparu hebryngwr, yna bydd costau ychwanegol yn cael eu hailgodi; oherwydd gallai fod angen i Swyddogion ofyn am arweiniad gan y Gwasanaethau Plant ac, os oes angen, trefnu i fynd â'r plentyn i fan gofal yr Awdurdod Lleol.

**Sylwch:** Nid oes dim yn y Polisi hwn sy'n creu disgwyliad y dylai pob plentyn gerdded i'r manau casglu, oherwydd bydd hyn yn amhriodol mewn rhai achosion. Mae'r Awdurdod yn cadw cofrestr o lwybrau peryglus hysbys, ac mae hyn yn ffurfio rhan o'r ystyriaeth a roddir wrth asesu ceisiadau am gludiant. Fodd bynnag, os cred rhiant / gofalwr nad yw defnydd o fan casglu'n addas i'w plentyn, dylent fynegi eu pryderon er sylw'r Awdurdod, a fydd yn ymchwilio i'r amgylchiadau i benderfynu a oes angen trefniadau cludiant ychwanegol neu amgen i'r plentyn hwnnw; er mwyn sicrhau bod gofynion y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn cael eu bodloni.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i adolygu'r manau casglu i sicrhau y cynhelir llwybr diogel drwy'r amser ac yn amodol ar sicrhau bod y ddarpariaeth fwyaf cost effeithiol ar waith.

Ar ôl cadarnhau cymhwyster am gludiant ysgol, bydd adran Cludiant i Deithwyr Sir Ddinbych yn cysylltu â rhieni / gofalwyr ac yn darparu manylion mewn perthynas â'r man casglu a ddefnyddiwyd ac amserau'r gwasanaeth.

Lle defnyddir gwasanaethau bwydo i gludo dysgwyr i fannau casglu, rhaid i'r dysgwyr aros gyda'r tacsi hyd nes i'r cerbyd sy'n parhau gyrraedd. Anogir gyrwyr i roi gwybod am unrhyw ddysgwyr sy'n gwrthod gwneud hyn i'r adran Cludiant i Deithwyr.

Mae'r contractwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi cael cyfarwyddyd i aros gyda'r dysgwyr i sicrhau eu bod yn mynd ar y cerbyd sy'n parhau. Anogir rhieni /

gofalwyr hefyd i roi gwybod am unrhyw achosion lle nad yw gyrwyr yn gwneud hyn i'r adran Cludiant i Deithwyr.

Mae gwybodaeth mewn perthynas â lleoliadau manau casglu ar draws Sir Ddinbych ar gael ar wefan y Cyngor. Gweler rhan 9 am ddolenni perthnasol.

### **2.10 Llwybrau Peryglus**

I ddysgwyr sy'n byw o dan y pellter cymhwyso statudol a ddengys yn rhan 2.2, bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant i'r ysgol os ystyrir bod y llwybr yn beryglus. Asesir llwybrau peryglus gan Swyddog Diogelwch Ffyrdd priodol Sir Ddinbych gan ddilyn y canllawiau a ddarparwyd yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014.

Lle defnyddir manau casglu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried hefyd a oes llwybrau peryglus a allai atal dysgwyr yn rhesymol rhag cerdded i'r lleoliadau hyn, gyda chwmni oedolyn cyfrifol fel y bo angen. Yn yr achosion hynny, bydd yr Awdurdod Lleol, ar ôl asesu, yn darparu cludiant o'r cartref i'r man casglu, neu'n cyfeirio at yr ysgol (pa bynnag un sydd fwyaf effeithlon).

Sylwer, lle mae rhieni / gofalwyr wedi defnyddio'u hawl i ysgol yn ôl ffafriaeth y rhieni / gofalwyr (gweler rhan 2.7), cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw trefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal cofrestr o holl llwybrau Sir Ddinbych a aseswyd, ac wrth i llwybrau newydd gael eu gwerthuso, byddant yn cael eu hychwanegu at y gofrestr. Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r gofrestr gyflawn bob 5 mlynedd i sicrhau bod yr holl llwybrau'n parhau i gael eu categorio'n gywir. Mae gwybodaeth mewn perthynas â llwybrau peryglus a aseswyd yn Sir Ddinbych ar gael ar wefan y Cyngor. Gweler rhan 9 am ddolenni perthnasol.

Os cred rhiant / gofalwr fod llwybr penodol yn beryglus, dylent fynegi eu pryderon i sylw'r Awdurdod, a fydd yn ymchwilio i gadarnhau a oes angen unrhyw drefniadau cludiant ychwanegol neu amgen.

### **2.11 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud darpariaeth addysgol addas a pherthnasol i bob plentyn gydag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau y gallant ddatblygu i'w llawn botensial.

Asesir lefel yr angen gan weithwyr proffesiynol perthnasol yn adran Addysg Sir Ddinbych, ac mae hyn yn llywio'r math o gludiant a ddarperir. Yna bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â'r cyngor a roddir ac a adolygir yn flynyddol.

Os oes gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal, gallai cludiant ysgol gael ei gynnwys fel rhan o'r darpariaethau heb fod yn addysgol ar gyfer y plentyn fel rhan o'u Datganiad/Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal. Os

ydyw, yna bydd cludiant yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, hwyrach na fydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu os bydd rhieni / gofalwyr yn defnyddio'u hawl i ddewis ysgol ac nad yr ysgol addas agosaf yw honno (Gweler rhan 2.7).

Os na chaiff cludiant ysgol ei gynnwys yn Natganiad/Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal y plentyn, yna hwyrach y bydd ganddynt hawl o hyd i gludiant o'r cartref i'r ysgol dan y polisi a ddarperir mai'r ysgol maen nhw'n ei mynychu yw'r ysgol briodol agosaf gyda lle neu os mynychwyd ysgol gynradd fwydo ddynodedig ganddynt ar gyfer ysgol uwchradd benodol; ar yr amod y bodlonir y meini prawf cymhwyster.

## **2.12 Plant sy'n Derbyn Gofal**

Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r term a ddefnyddir yn Neddf Plant 1989 i ddisgrifio plant sydd o dan 18 oed ac sy'n cael gofal a llety gan adran Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol, gyda gofalwyr maeth yn aml iawn.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn datgan y bydd yr un meini prawf asesu'n berthnasol i Blant sy'n Derbyn Gofal â phlant nad ydynt yn derbyn gofal; fodd bynnag, nid oes gofyniad iddynt fynychu'r ysgol addas agosaf at eu cartref neu gyfeiriad y lleoliad.

Os ydy'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn mynychu ysgol agosach na'r pellter gofynnol a ddengys yn rhan 2.2, ni fydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu. Gallai eithriadau yn rhinwedd y meini prawf a ddengys yn rhan 3 fod yn berthnasol hefyd.

Os ydy'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn mynd i ysgol dros y pellter a ddengys yn rhan 2.2, bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol briodol er mwyn sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl a pharhad addysg, tra'n cynnal lles y plentyn hefyd. Ar gyfer teithiau o leoliadau y tu allan i'r sir, neu sy'n golygu teithiau hir, gallai prawf rhesymoldeb gael ei roi ar waith. Bydd y prawf hwn yn ystyried pellter, amser teithio ac agosrwydd sefydliadau addas eraill.

## **2.13 Preswyliaid Deuol**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant i ddysgwyr a allai fod yn preswyllo mewn mwy nag un preswylfa oherwydd eu hamgylchiadau teuluol; gydag o leiaf un o'r preswylfeydd hynny yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae hyn ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r brif breswylfa, neu y cytunir mai dyna'r ysgol fwyaf addas o ystyried lleoliadau'r ddwy breswylfa. Rhaid darparu prawf o breswyliaid deuol ac, fel rheol, y brif breswylfa yw'r eiddo y telir budd-dal plant iddi.

Os ydy'r ail breswylfa mewn ardal Awdurdod Lleol gwahanol, yna cyfrifoldeb yr Awdurdod hwnnw yw ystyried trefniadau cludiant ar gyfer y llwybr hwnnw i'r ysgol. Felly, dylai rhieni/gofalwyr wneud cais i'r Awdurdod Lleol perthnasol.



### **3. CLUDIANT YSGOL DEWISOL**

#### **3.1 Trefniadau Dewisol**

O fewn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gellir gwneud trefniadau dewisol o dan ran 6 y Mesur. Mewn rhai achosion, gellir codi ffi am gost y trefniadau hynny i'r rhiant / gofalwr cyfrifol.

#### **3.2 Ysgolion Ffydd**

Bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r ysgol Ffydd addas agosaf ar sail ddewisol os dyma yw dewis y rhieni / gofalwyr. Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad hon yw'r ysgol addas agosaf. Bydd y meini prawf pellter yn rhan 2.2 yn parhau i fod yn berthnasol. Gweler y tabl yn Atodiad 1 am ragor o fanylion ar ysgolion Ffydd.

Os ydy'r ysgol Ffydd addas agosaf y tu allan i'r Sir, yna bydd cludiant yn parhau i gael ei ddarparu gan yr Awdurdod.

Lle mae rhieni / gofalwyr wedi datgan addysg Ffydd yn benodol ac nad oes gan yr ysgol Ffydd addas agosaf unrhyw le ar gael, yna bydd yr ysgol Ffydd addas agosaf nesaf yn cael ei hystyried.

#### **3.3 Addysg Cyfrwng Cymraeg neu Saesneg**

Yn unol â rhan 10 y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg trwy ddarparu cludiant dewisol i'r addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg addas agosaf, os dyma yw dewis y rhiant / gofalwr. Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yr ysgol addas agosaf yw hon.

Ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, byddai'n ysgol sydd wedi'i chategoreiddio'n 1 neu 2 yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer categori 2, byddai'n ysgol lle addysgir o leiaf 80% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) trwy gyfrwng y Gymraeg ond a addysgir hefyd trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn dangos categorïau Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Sir Ddinbych.

Os ydy'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg agosaf y tu allan i'r Sir, byddai cludiant yn parhau i gael ei ddarparu gan yr Awdurdod. Bydd ffafriaeth yn cael ei hystyried yn erbyn ysgolion Cyfrwng Cymraeg neu Gyfrwng Saesneg yn unig. Bydd y meini prawf pellter yn rhan 2.2 yn parhau i fod yn berthnasol.

#### **3.4 Trefniadau Ysgolion Bwydo**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhai ysgolion Cynradd yn ysgolion bwydo naturiol i rai ysgolion Uwchradd ar sail ddewisol. Felly, mewn perthynas ag addysg Uwchradd, gallai cludiant ysgol am ddim gael ei ddarparu naill ai i'r Ysgol Uwchradd addas agosaf neu i'r Ysgol Uwchradd fwydo gydnabyddedig; ar yr amod bod y dysgwr yn byw dros y meini prawf pellter yn rhan 2.2, a chytunir bod y daith yn rhesymol; dengys y meini prawf hyn isod.

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i wneud cais am brawf rhesymoldeb i'r rhieni / gofalwyr hynny sy'n gofyn am gludiant ysgol uwchradd ar sail ysgolion bwydo. Er mwyn cael cludiant am ddim ar y sail hon, rhaid i'r dysgwr:

- Fod wedi bod yn mynychu eu hysgol gynradd addas agosaf o'u lleoliad adref fel yr asesir yn y man derbyn.
- Bodloni'r meini prawf pellter yn rhan 2.2 ar gyfer ysgolion uwchradd.
- Os bydd dysgwyr yn symud tŷ cyn dechrau'r ysgol uwchradd, bydd eu hawl yn gofyn am ailasesiad, yn ôl y meini prawf a ddengys yn rhan 2.
- Mewn achosion lle nad yw'r dysgwyr wedi mynychu eu hysgol gynradd addas agosaf yn ôl ffafriaeth y rhiant / gofalwr, ni fydd rhan 3.4 yn berthnasol. Yna, bydd yr asesiad o geisiadau cludiant ysgol yn seiliedig ar yr ysgol Uwchradd addas agosaf yn unig.

### 3.5 **Cludiant Ôl-16**

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol lle mae dysgwr o Sir Ddinbych yn byw 3 milltir neu'n fwy o'r ysgol neu'r coleg AB addas agosaf. Rhaid i'r dysgwr fod yn astudio'n amser llawn a bod yn llai nag 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd y dilynwyd y cwrs. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol uwchradd agosaf a ddynodwyd gan yr Awdurdod i wasanaethu cyfeiriad cartref y dysgwr yn unig, neu yn achos cyrsiau galwedigaethol amser llawn, i'r coleg AB agosaf. Darperir cludiant rhwng sefydliadau dysgu sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd gan y partneriaid hynny.

### 3.6 **Ad-drefnu Ysgolion**

Mewn achosion lle mae ysgolion wedi'u had-drefnu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y dewisiadau mwyaf priodol ar gyfer cludiant ysgol. Gallai hyn gynnwys darparu cludiant am ddim am gyfnod penodedig o amser yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd y fath drefniadau'n cael eu darparu ar sail ddewisol ac yn cael eu dogfennu yn y broses ad-drefnu; felly bydd ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni / gofalwyr perthnasol ac unrhyw fudd-ddeiliaid eraill i gyd yn ymwybodol o delerau'r trefniant.

### 3.7 **Symud Cartref**

Mewn achosion lle mae dysgwr, sydd wedi bod yn derbyn cludiant ysgol am ddim, yn symud cartref rhan o'r ffordd trwy'r flwyddyn academaidd, bydd cludiant yn darfod os nad ydynt mwyach yn mynychu eu hysgol addas agosaf.

Os ydyw rhan o'r ffordd trwy flwyddyn TGAU (blynyddoedd ysgol 10 ac 11), bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu cludiant dewisol hyd nes i'r blynyddoedd academaidd gael eu cwblhau, h.y. tan ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ymrwymiad hwn yn dibynnu ar y dysgwr yn byw yn ardal yr Awdurdod fel rheol. **Sylwch:** Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cadw'r hawl i brofi rhesymoldeb y cludiant y gofynnwyd amdano dan yr amod hwn, o ystyried pellter, amser y daith a'r agosrwydd i sefydliadau addas eraill.

Bydd pob ailasesiad cymhwyster arall yn dilyn yr un meini prawf a osodwyd yn rhan 2. Ni fydd y rhan hon yn berthnasol lle mae rhieni / gofalwyr wedi defnyddio ffafriaeth yn flaenorol fel y manylir yn rhan 2.7.

### **3.8 Trosglwyddiadau Ysgol a Reolir**

Lle cefnogir trosglwyddiadau ysgol a reolir gan bennaeth ysgol y cyrchfan newydd a'r Gwasanaethau Addysg, bydd rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o'r weithred hon ac yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn ar lefel ysgol. Gallai cludiant ysgol dan yr amgylchiadau hyn gael eu cefnogi ar sail ddewisol lle ffurfia ran o'r weithred a chytundeb pob parti i fynd ar drywydd newid ysgol er lles y dysgwr.

Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn gyda'r Awdurdod a'r ysgol wrth fynd ar drywydd trosglwyddiad a reolir. Mae angen gwirio'r materion hyn ac mae tystiolaeth ar gael. Mae hyn yn galluogi Cefnogi Addysg i wneud penderfyniad deallus ar sail y dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais am gludiant.

Lle nad oes tystiolaeth ar gael ac/neu lle mae rhiant / gofalwyr yn gwrthod ymhél â'r broses gyda'r ysgol a'r Gwasanaethau Addysg, bydd y cais am gludiant yn cael ei wrthod. Bydd hyn yn seiliedig ar y diffyg tystiolaeth sydd ar gael i wneud penderfyniad deallus.

### **3.9 Tynnu Cludiant Dewisol yn Ôl**

Gall Awdurdod Lleol dynnu'n ôl darpariaethau cludiant ysgol dewisol, ar yr amod y cytunwyd ac y cyhoeddwyd y newidiadau perthnasol i'r polisi cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd lle bydd y newidiadau'n dod i rym.

### **3.10 Darpariaethau Dewisol Eraill**

Gellir gwneud trefniadau dewisol eraill mewn perthynas â chludiant ysgol dan ran 6 y Mesur. Gallai Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Phlant roi'r grymoedd hyn ar waith am gludiant am ddim mewn achosion fel:

- Diogelu dysgwr, neu lle mae effaith andwyol arwyddocaol yn debygol o fod ar les y dysgwr hwnnw;
- Gallai cludiant am resymau meddygol fod yn berthnasol hefyd dan y meini prawf hyn hefyd, gan gynnwys achosion lle mae gan y rhiant anabledd sy'n cyfyngu ar allu dysgwr i deithio i'r ysgol heb gludiant am gyfnod o amser; neu lle mae dysgwr wedi'i analluogi dros dro trwy salwch neu anaf.
- Lletya teulu dros dro y tu allan i'r ardal breswyl flaenorol oherwydd argyfwng, fel rheol trwy Wasanaeth Tai'r Awdurdod, er mwyn lleihau'r amhariad ar addysg.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a hwyrach fod amgylchiadau eraill lle gellir rhoi disgrisiwn ar waith; fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb y dull mewn perthynas â disgrisiwn, hwyrach y gofynnir am dystiolaeth gan weithwyr proffesiynol perthnasol a bydd yr asesiad yn cael ei gofnodi.

Lle rhoddir trefniadau cludiant dewisol tymor byr ar waith, bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r rhieni / gofalwyr pan fydd y trefniadau hyn yn dod i ben.

## 4 GWNEUD CAIS AM GLUDIANT

4.1 Mae angen cais am gludiant ysgol / coleg AB wrth:

- Ddechrau yn yr Ysgol Gynradd (nid meithrin)
- Dechrau yn yr Ysgol Uwchradd
- Symud i Flwyddyn 7 mewn ysgol ganol
- Mynd o flwyddyn 11 i'r chweched dosbarth / coleg AB; neu
- Newid lleoliad y cartref neu'r ysgol

4.2 Gallwch wneud cais am gludiant ar-lein yn:

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/addysg/grantiau-ac-ariannu/gludiant-am-ddim-ir-ysgol/cludiant-am-ddim-ir-ysgol-ar-coleg.aspx>

Neu gallwch lawrlwytho'r cais o'r wefan, neu ofyn i ffurflen gael ei phostio atoch, a'i hanfon at gyfeiriad yr Awdurdod sydd i'w weld ar y ffurflen.

4.3 Bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad y cais cyn pen 15 niwrnod gwaith o dderbyn eich ffurflen. Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwch chi'n cael manylion amserau a lleoliadau casglu yn ystod gwyliau'r haf at ddibenion dechrau ym mis Medi, neu cyn gynted â phosibl am geisiadau canol y flwyddyn ysgol. Bydd y manylion hyn yn cael eu hanfon atoch gan adran Cludiant i Deithwyr Sir Ddinbych.

4.4 Os bydd eich amgylchiadau'n newid yn ystod y flwyddyn ysgol, rhaid i chi roi gwybod i'r Awdurdod Lleol. Os byddwch yn symud cartref neu'n newid ysgol er enghraifft, yna bydd angen i chi ailwneud cais am gludiant ysgol bryd hynny. Os ydych chi'n gwneud cais am gludiant yn ystod y flwyddyn ysgol, gwnewch hynny cyn gynted ag y gallwch ar ôl i'ch cyfeiriad newydd gael ei gadarnhau.

**PWYSIG** – Cynghorir rhieni / gofalwyr i ystyried goblygiadau cludiant ysgol. Mae rhan 2.3 yn darparu gwybodaeth am yr ysgol addas agosaf a rhan 3.7 ar symud cartref.

4.5 Gellir dod o hyd i fanylion llawn yr holl faterion cysylltiedig â chludiant yn Llawlyfr i Rieni Sir Ddinbych:

<http://www.sirddinbych.gov.uk/derbyn-i-ysgol>

## **5. GWYBODAETH ARALL**

### **5.1 Addysg Feithrin**

Nid yw'r Awdurdod yn darparu cludiant i blant sy'n mynychu ysgol feithrin neu ddosbarthiadau meithrin yn 3 neu 4 oed. Darperir cludiant i blant cymwys o ddechrau'r flwyddyn ysgol lle mae'r plentyn yn cyrraedd 5 oed ac yn dechrau addysg amser llawn, fel rheol yn y dosbarth derbyn.

### **5.2 Clybiau y Tu Allan i'r Ysgol**

Ni fydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i glybiau ar ôl ysgol neu oddi wrthynt (h.y. clwb brecwast, clybiau ar ôl ysgol ac ati) neu weithgareddau allgyrsiol sy'n cwmpo y tu allan i'r cwricwlwm statudol. Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw sicrhau bod trefniadau cludiant priodol ar waith os eir at y gwasanaethau hyn.

### **5.3 Newidiadau i'r Polisi**

Os bydd angen diwygio'r polisi hwn, rhaid i'r Awdurdod ddilyn y gofynion a osodwyd yn Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009. Mae hyn yn gofyn i'r Awdurdod ymgynghori, cytuno a chyhoeddi newidiadau i'r polisi cyn 1 Hydref yn y flwyddyn sy'n rhagflaenu'r flwyddyn academiaidd y daw'r newidiadau i rym.

Os bydd angen, gall yr Awdurdod hefyd gyhoeddi canllawiau egluro ychwanegol ochr yn ochr â'r polisi hwn. Bydd unrhyw ganllawiau o'r fath ar gael ar wefan yr Awdurdod.

### **5.4 Effaith Cludiant**

Dylai Rhieni / Gofalwyr ystyried goblygiadau eu dewis ysgol ar y defnydd o geir preifat a'r effaith y gallai hyn ei chael ar draffig y tu allan i'w hysgol ddethol. Mae'r Awdurdod yn annog rhieni / gofalwyr i ystyried cludiant llesol a chynaliadwy i'r ysgol o'u dewis. Gweler Rhan 5.5 isod.

Anogir ysgolion hefyd i weithio gyda rhieni / gofalwyr a'r Awdurdod i ystyried dewisiadau i ddatblygu cyfleusterau 'bws cerdded' llesol a diogel i'r ysgol. Dylai rhieni / gofalwyr gysylltu â'u hysgol i holi ynghylch y darpariaethau hynny. Mae swyddogion Diogelwch y Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy'r Awdurdod ar gael i ddarparu arweiniad hefyd.

### **5.5 Dulliau Teithio Cynaliadwy**

Dylai Rhieni / Gofalwyr ystyried dewisiadau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol. Darperir dolenni perthnasol yn rhan 9 i wybodaeth am Lwybrau Teithio Llesol yn Sir Ddinbych a gwefan Sustrans; sy'n dangos llwybrau beicio ar hyd a lled y sir.

## 6. Darparu Cludiant

### 6.1 Darpariaeth Cludiant y Cyngor

Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ddarparu'r dull cludiant mwyaf addas i bob dysgwr cymwys sy'n ddiogel ac sy'n darparu'r dull cludiant mwyaf cost effeithiol. Gallai hyn fod trwy fws, coets, bws mini, neu contractau tacsis ysgol, neu gludiant cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli. Trefnir a rheolir y gwasanaethau hyn a'r contractau cysylltiedig gan adran Cludiant i Deithwyr Sir Ddinbych.

### 6.2 Gostyngiad ar Gludiant

Os na fydd dysgwr yn cymhwyso am gludiant ysgol am ddim fel y gosodwyd yn y polisi hwn, a bod seddau gwag ar gael ar wasanaethau tacsî, bws mini a choets yr Awdurdod, gallai'r rhain gael eu cynnig fel seddau gyda gostyngiad. Bydd yr amodau canlynol yn berthnasol:

- Bydd ffi resymol fesul tymor yn cael ei rhoi ar waith. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol cyn y flwyddyn ysgol newydd. Os bydd yr Awdurdod yn rhoi gostyngiad, bydd ffi'n cael ei chodi ar rieni / gofawyr yn dymhorol. Os bydd dysgwr ond yn defnyddio'r gwasanaeth yn rhannol, e.e. yn y bore neu'r prynhawn neu ar ddiwrnodau penodol, yna bydd ffi dymhorol lawn i'w thalu.
- Gallai'r rhieni / gofawyr wneud cais am ostyngiad unrhyw bryd ar gyfer eu plentyn. Ymdrinnir â cheisiadau yn y drefn y'u derbyniwyd a rhaid talu'n dymhorol am y rhai a gytunwyd. Os bydd rhiant / gofawr yn gwneud cais llwyddiannus yn ystod blwyddyn academaidd flaenorol, cofnodir eu gofyniad parhaus o flaen ceisiadau newydd. Fodd bynnag, ni ellir rhoi gostyngiadau hyd nes bod nifer y seddau gweigion wedi'u cadarnhau, ar ôl i'r dysgwyr sydd â'r hawl iddynt gael eu cyfrif amdanynt ar gerbyd penodol. Felly, ni all yr adran Cludiant i Deithwyr gadarnhau'r gostyngiadau cyn dechrau'r flwyddyn academaidd a gallai gymryd nifer o wythnosau i gadarnhau faint o seddau gweigion sydd ar gael ar unrhyw wasanaeth penodol.
- Gallai gostyngiadau gael eu tynnu'n ôl ar fyr rybudd pan na fydd seddau ar gael neu os bydd eu hangen ar gyfer dysgwr cymwys. Yn yr achosion hynny, bydd ad-daliad cymesur yn cael ei gyfrifo a'i roi'n ôl i'r rhiant / gofawr. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd rhybudd ysgrifenedig o saith niwrnod yn cael ei roi.
- Ni ellir rhoi gostyngiad ar docynnau ar fyr rybudd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd gan fod angen dynodi a oes seddau gweigion ar gerbydau contract.
- Fel rheol, ni chynigir gostyngiad ar seddau lle mae cludiant cyhoeddus yn rhedeg ochr yn ochr â chludiant ysgol neu lle cludiant cyhoeddus yw'r unig ddewis sydd ar gael. Dan yr amgylchiadau hynny, disgwylir i rieni / gofawyr ddefnyddio'r cludiant cyhoeddus sy'n bodoli.

### 6.3 Taliadau Cludiant

Hwyrach y bydd amgylchiadau lle gellir cynnig taliad enwol i rieni tuag at y gost o gludo'u plant. Dewis a ddefnyddir mewn amgylchiadau eithriadol yn unig yw hwn, ac os oes trafferthion wrth drefnu cludiant ysgol i ddysgwyr cymwys. Nid oes rhwymedigaeth ar rieni / gofawyr i dderbyn y cynnig ad-daliad a fyddai'n gyfradd osod fesul milltir fel rheol ar gyfer y milltiroedd a deithiwyd yn ystod dwy daith ddychwelyd y dydd; fodd bynnag, hwyrach yr ystyrir mai dyma'r dull cludiant mwyaf rhesymol.

#### **6.4 Ymddygiad ar Gludiant**

Disgwylir i ddysgwyr sy'n teithio ar gerbydau gwasanaeth neu contract a ddarperir gan yr Awdurdod ymddwyn yn dda bob amser a chydymffurfio â gofynion y Cod Teithio i'r Ysgol, gweler Atodiad 2. Mae'r ddogfen lawn [ar gael yma](#).

Gellir tynnu'n ôl cymhwyster am gludiant unrhyw Ddysgwyr sy'n camymddwyn, yn achosi, neu'n peryglu i achosi difrod neu anaf i'r cerbyd, gyrrwr neu deithwyr, neu mewn unrhyw ffordd yn bygwth diogelwch y teithwyr ac/neu gerbyd eraill. Bydd unrhyw ddysgwyr heb yr hawl i gludiant ysgol am ddim ond sy'n teithio ar wasanaethau contract ar sail gostyngiad, yn destun yr un rheolau hefyd.

Mae ymddygiad dysgwyr ar wasanaethau cludiant ysgol o'r pwys mwyaf, felly mae disgwyl i rieni / gofalwyr gefnogi'r Awdurdod, yr ysgolion, y gweithredwyr cludiant a'u staff wrth gynnal ymddygiad da. Dylid deall yn glir mewn achosion o gamymddwyn, y gosb eithaf yw tynnu ymaith yr hawl i gael cludiant. Yn yr achosion hynny, bydd cyfrifoldeb a chost lawn y cludiant i'r ysgol ac oddi yno yn cwmpo ar y rhiant / gofalwr.

Mae'r Awdurdod yn annog adborth gan ddarparwyr gwasanaeth ac ysgolion mewn perthynas â defnyddio'r gwasanaethau cludiant ysgol a ddarperir. Bydd cofnod yn cael ei gadw o ddigwyddiadau ac unrhyw ymchwiliad cysylltiedig. Os bydd angen, bydd rhieni / gofalwyr yn cael gwybod am ddigwyddiadau os gellir dangos pob plentyn neu blant wedi bod yn achosi problemau.

#### **6.5 Monitro Gwasanaethau**

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i haparchwilio gwasanaethau cludiant ysgolion i sicrhau bod pawb sy'n teithio yn gymwys. Lle canfyddir bod dysgwyr yn teithio ond nad ydynt yn gymwys, bydd yr adran Cludiant i Deithwyr yn cofnodi'r achosion hyn ac yn cysylltu â'r rhieni / gofalwyr perthnasol er mwyn rhoi gwybod iddynt am eu dewisiadau.

#### **6.6 Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

Mae adran Cludiant i Deithwyr Sir Ddinbych yn rheoli ac yn trefnu'r holl contractau cludiant ysgol angenrheidiol gyda'r darparwyr gwasanaeth priodol. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd ag archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob gyrrwr a hebryngwr ysgol i deithwyr. Sylwch: cyflogir hebryngwyr ysgol ar Wasanaethau Ysgol Gynradd yn unig lle ystyrir bod hynny'n briodol, neu os bydd anghenion dysgu ychwanegol y plentyn yn gwneud hynny'n briodol.

#### **6.7 Tywydd Gwael**

Gall tywydd gwael effeithio ar wasanaethau cludiant ysgol a'u darpariaeth barhaus; felly, gyda diogelwch yn hollbwysig, y darparwyr cludiant fydd yn penderfynu yn y pen daw penderfyniad a fydd y gwasanaeth yn gweithredu ai peidio. Ni chynghorir y contractwyr i redeg gwasanaethau mewn tywydd difrifol, yn enwedig os bydd y rhagolygon yn darogan y bydd y tywydd yn gwaethygu.

Bydd yr adran Cludiant i Deithwyr yn gwneud pob ymdrech i roi gwybod i ysgolion pan fydd cludiant o'r cartref i'r ysgol yn debygol o gael ei darfu arno. Bydd manylion y newidiadau hynny ar gael ar wefan y Cyngor hefyd. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol y bydd gan rai ysgolion y gallu i anfon neges destun i rieni / gofalwyr ar ôl i'r adran Cludiant

i Deithwyr roi gwybod iddynt. Felly, mae'n bwysig bod y rhieni / gofalwyr yn sicrhau bod eu manylion cyswllt gyda'r ysgol yn cael eu diweddarau bob amser.

Mae angen i'r contractwyr hynny sy'n darparu gwasanaethau tacsï bwydo i'r ysgol / mannau casglu gysylltu â rhieni / gofalwyr yn uniongyrchol gydag unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ystod tywydd gwael, neu am unrhyw reswm arall. Bydd gwybodaeth am gau ysgolion oherwydd tywydd gwael, neu am unrhyw reswm arall, yn cael ei phostio ar wefan Sir Ddinbych. Anogir rhieni / gofalwyr i edrych ar y wefan am y diweddariadau hynny.

## 7. APELIADAU

**7.1** Fel rheol, bydd y rhiant / gofalwr yn cael gwybod ar bapur cyn pen 15 niwrnod gwaith o gais aflwyddiannus am gludiant ysgol. Bydd yr Awdurdod hefyd yn cynnig cyfle i'r rhiant / gofalwr apelio'r penderfyniad a rhoi cyngor ar y broses isod.

### **7.2 Cam 1 – Adolygu Penderfyniad**

Rhaid anfon cais i adolygu penderfyniad Cludiant i Ddysgwyr at yr Awdurdod cyn pen 20 niwrnod gwaith ar ôl dyddiad y gwrthodiad cychwynol. Dylai'r rhieni / gofalwyr ysgrifennu at yr Awdurdod yn dynodi eu dymuniad i adolygu'r penderfyniad.

Dylid anfon y cais hwn at [derbyniadau@sirddinbych.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirddinbych.gov.uk) yn datgan y rhesymau ac yn codi unrhyw amgylchiadau perthnasol a allai effeithio ar y penderfyniad. Dylid hefyd darparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r amgylchiadau hyn i'r Awdurdod Lleol. Gellir hefyd postio'r wybodaeth ychwanegol hon a'r apêl at y cyfeiriad canlynol:

**Cefnogi Addysg,  
Cyngor Sir Ddinbych,  
Blwch Post 62,  
Rhuthun,  
LL15 9AZ**

Cyn pen 20 niwrnod gwaith o dderbyn y cais ysgrifenedig, bydd Uwch Swyddog o'r adran Cefnogi Addysg yn adolygu'r penderfyniad gwreiddiol ac yn ymateb gan roi manylion y canlyniad. Bydd yr ymateb hwn yn amlinellu:

- Natur y penderfyniad y daethpwyd iddo
- Sut cynhaliwyd yr adolygiad
- Gwybodaeth am adrannau / asiantaethau eraill yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses
- Pa ffactorau a ystyriwyd
- Y rhesymeg am y penderfyniad y daethpwyd iddo
- Gwybodaeth am symud ymlaen i Gam 2, os yn briodol

Sylwir y bydd cofnodion adolygiadau ac apelïadau blaenorol yn cael eu cynnal gan yr adran Cefnogi Addysg i sicrhau cysondeb o ran dull. Os oes unrhyw wybodaeth gefnogol



ychwanegol a ddarperir gan y rhieni / gofalwyr yn gyson ag adolygiadau blaenorol a gadarnhawyd, yna mae'n bosibl na fydd angen cam apelio Cam 2 ac ar ôl asesiad, bydd y rhiant / gofalwr perthnasol yn cael gwybod y canlyniad.

### **7.3 Cam 2 – Apêl**

Cyn pen 20 niwrnod gwaith o gael hysbysiad o benderfyniad Cam 1, gall rhieni/gofalwyr wneud cais i ddatblygu'r mater i Apêl Cam 2.

Cyn pen 40 niwrnod gwaith o dderbyn cais Cam 2, bydd panel apêl annibynnol yn cael ei alw i ystyried yr apêl.

Bydd panel o swyddogion annibynnol yn ystyried yr apêl yn erbyn y Polisi Cludiant i Ddysgwyr ac yn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. Ni fydd yr un aelod o'r panel apêl wedi cymryd rhan yn y penderfyniad gwreiddiol ar gludiant. Bydd cyfarfod y panel yn cael ei gofnodi a bydd cofnodion ar gael. Bydd y panel yn ystyried yr holl dystiolaeth a ddarperir i gefnogi'r apêl. Os dymunant, gallai rhieni / gofalwyr fynychu i ddarparu crynodeb o'u hapêl. Bydd Swyddogion Cefnogi Addysg yn cael cyfle hefyd i ddarparu manylion eu hasesiad i'r panel.

Ar ôl gwrandawriad yr apêl, bydd y rhiant / gofalwr yn cael gwybod gan yr adran Cefnogi Addysg am ganlyniad eu hapêl ar bapur. Bydd yr ymateb yn gosod y wybodaeth ganlynol:

- Natur y penderfyniad y daethpwyd iddo
- Sut cynhaliwyd yr adolygiad
- Gwybodaeth am adrannau ac/neu asiantaethau eraill yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses
- Pa ffactorau a ystyriwyd
- Y rhesymeg am y penderfyniad y daethpwyd iddo
- Gwybodaeth am symud yr achos ymlaen i Ombwdsmon y Llywodraeth Leol

Yn dilyn y penderfyniad hwn, ni fydd rhesymau eraill i apelio i'r Awdurdod Lleol. Byddai unrhyw ddatblygiad pellach i Ombwdsmon y Llywodraeth Leol.

## 8. MANYLION CYSWLLT

### 8.1 Ceisiadau am Gludiant

Ar gyfer ymholiadau'n gysylltiedig â cheisiadau e-bostiwrch [derbyniadau@sirddinbych.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirddinbych.gov.uk) neu ffoniwrch 01824 706000

### 8.2 Gwasanaethau Cludiant i Deithwyr

Ar gyfer ymholiadau'n gysylltiedig â materion gwasanaethau gweithredol e-bostiwrch [passengertransport@denbighshire.gov.uk](mailto:passengertransport@denbighshire.gov.uk) neu ffoniwrch 01824 706000

### 8.3 Cludiant 14-19 Transport

Ar gyfer ymholiadau'n gysylltiedig â chludiant rhwng sefydliadau ar gyfer y rhwydwaith dysgu 14-19, e-bostiwrch [derbyniadau@sirddinbych.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirddinbych.gov.uk) neu ffoniwrch 01824 706000

### 8.4 Cwynion am Gludiant

Os hoffech wneud cwyn, e-bostiwrch [passengertransport@denbighshire.gov.uk](mailto:passengertransport@denbighshire.gov.uk) neu ffoniwrch 01824 706000

### 8.5 Derbyniadau Ysgol

Ar gyfer ymholiadau'n gysylltiedig â Derbyniadau Ysgol e-bostiwrch [derbyniadau@sirddinbych.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirddinbych.gov.uk) neu ffoniwrch 01824 706000

### 8.6 Cludiant ADY

Ar gyfer ymholiadau'n gysylltiedig â Chludiant ADY e-bostiwrch [derbyniadau@sirddinbych.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirddinbych.gov.uk) neu ffoniwrch 01824 708064

9. **Dolenni Cyswllt i Ddogfennaeth Berthnasol**

**The Learner Travel (Wales) Measure 2008**

[http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/pdfs/mwa\\_20080002\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/pdfs/mwa_20080002_en.pdf)

[Available by clicking here](#)

**Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**

[http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/pdfs/mwa\\_20080002\\_we.pdf](http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/pdfs/mwa_20080002_we.pdf)

[Ar gael yma](#)

**Learner Travel Statutory Provision and Operational Guidance 2014**

<https://gov.wales/learner-travel-statutory-provision-and-operational-guidance>

[Available by clicking here](#)

**Teithio gan Ddysgwyr Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014**

<https://llyw.cymru/teithio-gan-ddysgwyr-darpariaeth-statudol-chanllawiau-gweithredol>

[Ar gael yma](#)

**The Travel Behaviour Code**

<https://gov.wales/travel-behaviour-code-guidance>

[Available by clicking here](#)

**Cod Ymddygiad wrth Deithio**

<https://llyw.cymru/cod-ymddygiad-teithio-canllawiau>

[Ar gael yma](#)

**Learner Travel Information (Wales) Regulations 2009.**

**Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009**

[http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/pdfs/wsi\\_20090569\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/pdfs/wsi_20090569_mi.pdf)

[Available by clicking here](#)

[Ar gael yma](#)

**Information on Active Travel in Denbighshire**

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/parking-roads-and-travel/cycling-and-walking/cycling-and-walking.aspx>

[Available by clicking here](#)

**Gwybodaeth teithio llesol yn Sir Ddinbych**

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/parcio-ffyrdd-a-theithio/beicio-a-cherdded/beicio-a-cherdded.aspx>

[Ar gael yma](#)

**Sustrans Website – Cycle Routes**

[Available by clicking here](#)

10. ATODIAD 1

YSGOLION BWYDO

Clwstwr Ysgolion Uwchradd	Ysgolion Cynradd Bwydo a Gydabyddir yn y Clwstwr	Ysgol Ffydd
<b>Ysgol Dinas Brân</b>  Cymraeg Categori 2	Bryn Collen	Na
	Caer Drewyn	Na
	Carrog	Na
	Gwernant Cymraeg Categori 1	Na
	Bro Dyfrdwy Cymraeg Categori 1	Na

<b>Ysgol Glan Clwyd</b>  Cymraeg Categori 1	Dewi Sant Cymraeg Categori 1	Na
	Henllan Cymraeg Categori 1	Na
	Tremeirchion Cymraeg Categori 1	Ie Eglwys yng Nghymru
	Twm o'r Nant Cymraeg Categori 1	Na
	Y Llys Cymraeg Categori 1	Na
	Pant Pastynog Cymraeg Categori 1	Ie Eglwys yng Nghymru

<b>Ysgol Uwchradd Dinbych</b>	Bodfari	Na
	Cefn Meiriadog	Na
	Esgob Morgan	Ie Eglwys yng Nghymru
	Y Faenol	Na
	Frongoch	Na
	Pendref	Na
	Llanelwy	Ie Eglwys yng Nghymru
	Trefnant	Ie Eglwys yng Nghymru
	Y Parc Infants	Na

<b>Ysgol Uwchradd y Rhyl</b>	Bryn Hedydd	Na
	Christchurch	Na
	Emmanuel	Na
	Llywelyn	Na
	Y Castell	Na

Ysgolion Uwchradd Addas Agosaf Posibl Eraill (yn dibynnu ar y pellter oddi cartref)
St Joseph's
Y Berwyn, Ysgol Brynhyfryd, St Joseph's
Y Berwyn, Ysgol Brynhyfryd, St Joseph's
Ysgol Morgan Llwyd
Y Berwyn / Ysgol Brynhyfryd

Ysgol Brynhyfryd

Emrys Ap Iwan
St Brigid's / YU y Rhyl / BEJ
Emrys Ap Iwan
Babanod yn unig: Esgob Morgan, Trefnant, St. Brigid's neu BEJ
St Brigid's

Emrys Ap Iwan



## 11. ATODIAD 2

### COD YMDDYGIAD TEITHIO AR FWS YSGOL

- Pan fyddwch wrth yr arhosfan bws, arhoswch yn synhwyrol, oddi ar y ffordd.
- Gwnewch gytundeb gyda'ch rhiant / gofalwr ynghylch beth i wneud os na fydd y bws yn cyrraedd neu os byddwch chi'n ei golli.
- Pan fydd y bws yn cyrraedd, arhoswch iddo stopio. Peidiwch byth â gwthio na rhuthro am y drws.
- Dangoswch eich tocyn bws (os cawsoch un) pan fyddwch yn mynd ar y bws.
- Pan fyddwch ar fws ysgol, arhoswch yn eich sedd am y daith gyfan.
- Dewch o hyd i sedd os oes un ar gael ar fws cyhoeddus.
- Peidiwch byth â rhwystro'r eil gyda'ch bag neu'ch eiddo.
- Gwisgwch wregys bob amser os darperir un.
- Rhaid i chi beidio â thynnu sylw'r gyrrwr pan fydd ef neu hi'n gyrru.
- Peidiwch byth â bwyta nac yfed ar y bws.
- Peidiwch byth â thaflu unrhyw beth i mewn i'r bws neu oddi arno.
- Peidiwch byth â difrodi na fandaleiddio unrhyw ran o'r bws.
- Peidiwch byth ag agor drysau neu allanfeydd y bws, heblaw mewn argyfwng.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr bob amser.
- Os oes damwain, arhoswch ar y bws hyd nes y dywedir wrthyfych am adael. Os ydy hi'n anniogel aros ar y bws, gadewch wrth yr allanfa fwyaf diogel.
- Peidiwch byth â cheisio mynd ar neu oddi ar y bws hyd nes iddo stopio.
- Camwch oddi ar y bws yn synhwyrol, gan fynd â'ch holl eiddo gyda chi.
- Peidiwch byth â chroesi'r ffordd o flaen neu'n agos y tu ôl i'r bws.

## Cod Ymddygiad ar gyfer Teithio

Mae eich diogelwch yn bwysig iawn. Rhaid i chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio i'r ysgol neu'r coleg ac oddi yno, p'un a ewch chi yno ar fws, trên, beic, ar droed neu unrhyw ffordd arall. Os cymerwch fws i'r ysgol neu'r coleg, rhaid i chi hefyd ddilyn y rheolau yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Teithio ar Fysus Ysgol.

Os na ddilynwch chi'r Cod hwn, gall pobl eraill, awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau gymryd camau yn eich erbyn er eich diogelwch chi. Gallai hyn olygu cymryd eich hawl i gludiant ysgol a hyd yn oed eich gwahardd o'r ysgol.

<h3>Eich Cyfrifoldeb</h3>	<h3>Eich Diogelwch</h3>	<h3>Eich Hawliau</h3>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Parchwch eraill bob amser, gan gynnwys disgyblion eraill, gyrrwyr a'r cyhoedd.</li><li>• Parchwch gerbydau ac eiddo bob amser.</li><li>• Byddwch yn gwrtais bob amser.</li><li>• Peidiwch byth â gollwng sbwriel.</li><li>• Ufuddhewch i'r gyfraith bob amser.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cofiwch ymddwyn yn dda wrth deithio bob amser.</li><li>• Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser wrth deithio.</li><li>• Rhaid i chi beidio â thynnu sylw'r gyrrwr.</li><li>• Croeswch y ffordd yn ddiogel ac yn synhwyrol bob amser.</li><li>• Teithiwch ar ffordd ddiogel bob amser.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Bod yn ddiogel wrth deithio.</li><li>• Cael eich trin gyda thegwch a pharch.</li><li>• Dweud wrth rywun a yw rhywun neu rywbeth yn achosi problemau i chi.</li><li>• Peidio â chael eich bwlio na phobl yn pigo arnoch.</li></ul>
<p><b>Dywedwch wrth athro, rhiant neu yrrwr am unrhyw ymddygiad gwael neu fwlio a welwch.</b></p>		